

BIL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (ANSAWDD AC YMGYSYLLTU) (CYMRU)

IGCansawddacymgysylltu@llyw.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ar 17 Mehefin 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) a fydd yn:

- cryfhau'r **Ddyletswydd Ansawdd** ar gyrff y GIG wrth wneud penderfyniadau ac ymestyn hyn i Weinidogion Cymru;
- gosod **Dyletswydd Gonestrwydd** ar ddarparwyr gwasanaethau'r GIG pan fydd pethau yn mynd o'i le;
- creu **Corff Llais y Dinesydd** newydd i gynrychioli buddiannau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a
- galluogi Ymddiriedolaethau'r GIG i benodi **Is-gadeiryddion**.

Yn 2018, gosododd yr *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru* nifer o argymhellion gan gynnwys rhai yn ymwneud â gwella ansawdd gwasanaethau ac integreiddio agosach rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn ffurfio elfennau allweddol o ymateb Llywodraeth Cymru: *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol* ac yn cael eu cefnogi gan ddarpariaethau yn y Bil.

Bydd gwelliannau parhaus i'r ansawdd yn allweddol i sicrhau bod y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn barod ar gyfer y dyfodol, a'i bod yn rhoi gwerth am arian. Ac fe fydd sefydlu Corff Llais y Dinesydd, ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn cael eu codi, bod rhywun yn gwrando, a'u bod yn cael eu clywed yn glir. Bydd hyn yn golygu, wrth edrych tua'r dyfodol, bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu llunio a'u darparu yn unol ag anghenion a dewisiadau'r unigolion.

DYLETSWYDD ANSAWDD

Mae ansawdd yn llawer mwy na bodloni safonau gwasanaethau yn unig; mae'n ffordd o weithio ar draws y system gyfan er mwyn ddarparu gofal iechyd sy'n ddiogel, yn effeithiol, yn canolbwyntio ar y person, yn effeithlon ac yn deg, yng nghyd-destun diwylliant sy'n dysgu. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'r Bil yn:

- gosod dyletswydd ansawdd gyffredinol ar Weinidogion Cymru; a
- ail-fframio ac ehangu'r ddyletswydd bresennol ar gyrff y GIG.

Mae hyn yn sicrhau bod y cysyniad o "ansawdd" yn cael ei ddefnyddio yn ei ddiffiniad ehangaf, heb ei gyfyngu i ansawdd gwasanaethau a ddarperir i unigolion na safonau gwasanaeth.

Bydd y Bil yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd) a chyrrff y GIG yn arfer eu holl swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd.

Ni fwriedir i'r ddyletswydd gyflawni canlyniad penodol na sicrhau bod lefel benodol o wasanaeth yn cael ei chyrraedd; bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG, wrth fynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch y gwasanaeth iechyd, ystyried a fydd y penderfyniad yn gwella ansawdd y gwasanaeth ac yn sicrhau gwelliant yn y canlyniadau. Mae'r dull gweithredu hwn yn cefnogi'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy annog meddwl tymor hir a gweithredu integredig a chydweithredol sy'n gweithio i gyflawni nod llesiant Cymru iachach.

Ar ben hynny, mae'r ddyletswydd yn ceisio cryfhau'r trefniadau llywodraethu drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru adrodd bob blwyddyn ar y camau y maen nhw wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd ac asesu hyd a lled unrhyw welliant yn y canlyniadau.

Bydd manylion ynghylch y ffordd y bydd y ddyletswydd yn gweithio'n ymarferol i'w gweld yn y canllawiau statudol, a fydd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid, ac fe fydd hyfforddiant yn cael ei ddatblygu i helpu i'w rhoi ar waith.

DYLETSWYDD GONESTRWYDD

Mae diwylliant o fod yn agored, yn dryloyw ac yn onest yn gysylltiedig â gofal o ansawdd da. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'r Bil yn gosod dyletswydd gonestrwydd, ar lefel sefydliadol, ar ddarparwyr gwasanaethau'r GIG - i gefnogi dyletswyddau proffesiynol presennol.

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr y GIG ddilyn proses pan fo defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef canlyniad andwyol sy'n arwain - neu a allai arwain - at niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy nag ychydig o niwed, a bod y gofal iechyd a ddarparwyd yn ffactor neu y gallai fod wedi bod yn ffactor. Nid oes elfen o fai, gan ei gwneud yn bosib canolbwyntio ar ddysgu a gwella, yn hytrach na beio.

Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol mewn perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd. Bwriedir i'r canllawiau hyn fod yn ddogfen ymarferol sydd wedi'i datblygu gyda rhanddeiliaid, i helpu i roi'r ddyletswydd ar waith. Yn benodol, bwriedir amlinellu ystyr "mwy nag ychydig" o niwed yn y canllawiau, gydag enghreifftiau ac astudiaethau achos i helpu i hybu dealltwriaeth a sicrhau cysondeb yn y ffordd y rhoddir y ddyletswydd ar waith drwy Gymru.

Mae'r ddyletswydd yn ceisio hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn gwella ansawdd y gofal o fewn y gwasanaeth iechyd drwy annog dysgu yn y sefydliad ac osgoi digwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr y GIG adrodd yn flynyddol am achosion pan ddaeth y ddyletswydd i rym - pa mor aml y cafodd y ddyletswydd ei thanio, disgrifiad o'r amgylchiadau arweiniodd at y digwyddiad a'r camau a gymerwyd gan y darparwr gyda'r nod o atal digwyddiad o'r fath rhag digwydd eto.

Bydd manylion ynghylch y ffordd y bydd y ddyletswydd yn gweithio'n ymarferol i'w gweld yn y rheoliadau, a fydd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth gyda'r rhanddeiliaid.

Gan ddefnyddio pwerau statudol sydd eisoes yn bodoli, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu gwneud rheoliadau ar wahân (dan Ddeddf Safonau Gofal 2000) i osod dyletswydd gonestrwydd ar ddarparwyr gofal iechyd annibynnol rheoleiddedig. Bydd hyn yn cysoni'r GIG a gofal iechyd annibynnol rheoleiddedig, gan ategu'r ddyletswydd a osodwyd ar ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig (dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016), i greu dull system gyfan o edrych ar onestrwydd.

CORFF LLAIS Y DINESYDD

Caiff yr ymdrech i sicrhau mwy o integreiddio rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gyda gwell ymgysylltiad â'r cyhoedd, ei hadlewyrchu yn nodau Cymru lachach. Mae'n amlinellu'r nod o sicrhau bod dinasyddion yn cael eu gosod wrth galon dull gweithredu system gyfan ar gyfer iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac yn pwysleisio pwysigrwydd gwrandao ar bob llais drwy broses o ymgysylltiad parhaus.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, bydd y Bil yn disodli Cyngorau Iechyd Cymuned (sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli llais y claf yn y gwasanaeth iechyd yn unig) â chorff cenedlaethol newydd - Corff Llais y Dinesydd - a fydd yn arfer swyddogaethau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Nodau'r corff newydd yw:

- cryfhau llais y dinesydd yng Nghymru mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau bod gan ddinasyddion system effeithiol o sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed;
- sicrhau bod unigolion yn cael cyngor a chynhorthwy wrth gyflwyno cwyn mewn perthynas â'u gofal; a
- defnyddio profiadau'r defnyddiwr gwasanaethau i ysgogi gwelliant.

Bydd y sefydliad newydd hwn yn cael ei sefydlu fel corff cenedlaethol, ond bydd yn cael ei strwythuro fel bod modd iddo gyflawni ei swyddogaethau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

IS GADEIRYDDION

Ar hyn o bryd, dim ond o blith eu Haelodau Annibynnol presennol y mae Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael penodi is-gadeirydd, a'r unig adeg y mae'r rhain yn cael dirprwyo yw pan na fydd y Cadeirydd ar gael neu pan na fydd yn medru cyflawni ei gyfrifoldebau.

Bydd y pwerau newydd yn y Bil yn darparu cyfle i Weinidogion Cymru benodi swydd benodol Is-gadeirydd ar fyrddau Ymddiriedolaethau'r GIG. Bydd hyn yn galluogi'r Is-gadeiryddion i gyfrannu'n llawn i waith Ymddiriedolaethau'r GIG, cryfhau gallu'r Aelodau Annibynnol, gwella'r prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, a darparu cysondeb ar draws Cymru.

Yn ogystal, gallai penodiad i swydd sydd â rôl fwy pendant ac sy'n gofyn am fwy o ymrwymiad amser arwain at ehangu'r pwll o ymgeiswyr a denu mwy o ddiddordeb, gyda'r Gweinidogion yn medru tynnu sylw at set o sgiliau gwahanol a mwy priodol o fewn y disgrifiad swydd.